OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 559

# Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011

## RHAN 2

Gweithgareddau esempt – darpariaethau cyffredinol

### Esemptio rhag yr angen am drwydded forol

**4.**—(1) Nid oes angen trwydded forol ar gyfer gweithgaredd a ymgymerir yng Nghymru neu yn rhanbarth glannau Cymru, sy'n weithgaredd esempt.

(2) Mae gweithgaredd yn weithgaredd esempt i'r graddau—

(a) y bo'n weithgaredd y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo(**1**); a

(b) pan fo cymhwysedd yr erthygl hon i weithgaredd yn ddarostyngedig i amod a bennir yn Rhan 3, y bo'r amod hwnnw wedi ei fodloni mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

(3) Ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (4) ac erthygl 5.

(4) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n gwneud gweithgaredd yn weithgaredd esempt i'r graddau y bo ymgymryd â'r gweithgaredd yn groes i gyfraith ryngwladol.

(**1**) Mae Rhan 3 yn pennu'r gweithgareddau y mae'r erthygl hon yn gymwys iddynt.